Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Heol Clare - Stryd Pendyris

## Mesurau ar ôl gweithredu

Pecyn Ymgysylltu

CARDIFF
CAERDYDD



# Heol Clare - Stryd Pendyris
## Mesurau ar ôl gweithredu
### Gwybodaeth gefndirol

Yn ddiweddar, gwnaeth y Cyngor newidiadau i gyffordd Heol Clare / Stryd Pendyris. Cafodd y rhain eu gweithredu yn dilyn pryderon ynghylch problemau traffig, diogelwch wrth y gyffordd, symudiadau trwodd bysus a diogelwch cerddwyr a beicwyr.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, mynegwyd pryderon am draffig wedi'i ddadleoli yn Mardy Street. Dywedom y byddem yn monitro'r pryderon hyn.

Yn dilyn cyflwyno'r system unffordd, gwnaethom wneud gwaith monitro ar y safle a hefyd ymgysylltu â Chynghorwyr Ward lleol. O'r gwaith monitro hwn, nodwyd bod y gyffordd yn gweithredu'n dda, fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y traffig wedi'i ddadleoli yn Mardy Street.

Recordiwyd nifer o yrwyr yn anwybyddu'r cyfyngiadau wrth y gyffordd a'r system unffordd, sy'n beryglus i ddefnyddwyr eraill y ffordd. Ar y sail hon, ac o ystyried y problemau o ran traffig wedi'i ddadleoli, penderfynwyd mai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu yw atal cerbydau rhag mynd i Stryd Pendyris wrth y gyffordd ag Arglawdd Dôl Afon Taf.

Felly, mae'r Cyngor yn bwriadu ymestyn y system unffordd newydd ar hyd Stryd Pendyris, o gyffordd Mardy Street i'r gyffordd ag Arglawdd Dôl Afon Taf. Mae manylion y cynnig i'w gweld ar y dudalen nesaf.

Mae gwybodaeth am Sut i Ymateb ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon, ynghyd â Chwestiynau Cyffredin.



# Heol Clare - Stryd Pendyris

## Mesurau ar ôl gweithredu

## Mesurau arfaethedig


Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

CARDIFF CAERDYDD


Nod yr ymestyniad arfaethedig i'r system unffordd bresennol ar Stryd Pendyris yw mynd i'r afael â'r pryderon traffig a fynegwyd gan breswylwyr a'n monitro ar ôl gweithredu. Bydd Stryd Pendyris yn dod yn stryd unffordd tua'r dwyrain i gerbydau.

Bydd beicwyr a cherddwyr yn dal i allu defnyddio Stryd Pendyris i'r naill gyfeiriad neu'r llall. Bydd lôn feicio wrthlif ar gael i feicwyr sy'n teithio tua'r gorllewin. Bydd beicwyr sy'n teithio tua'r dwyrain yn parhau i ddefnyddio'r lôn gerbydau. Bydd y Mannau Parcio Talu ac Arddangos yn aros ar ddwy ochr y ffordd

Bydd y mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith dan Orchmynion Rheoli Traffig Arbrofol (GRhTAau) yn gyntaf a'u gwneud yn barhaol os yn llwyddiannus. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am GRhTAau ar wefan y cyngor.




*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig. Nid yw'r cynllun wrth raddfa.*




*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig. Nid yw'r cynllun wrth raddfa.*


Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Heol Clare - Stryd Pendyris

## Mesurau ar ôl gweithredu

### Dyluniad cydsyniad


CARDIFF CAERDYDD




Bydd lôn feicio wrthlif Stryd Pendyris yn cael ei hymestyn y tu hwnt i'r gyffordd â Mardy Street, fel lôn feicio wrthlif ymgynghorol i Arglawdd Dôl Afon Taf.

Wrth gyffordd Mardy Street gyda Stryd Pendyris, bydd cerbydau'n gallu troi i'r dde yn unig o hyd. Bydd mannau parcio yn cael eu cadw ar ddwy ochr Stryd Pendyris.

Wrth gyffordd Stryd Pendyris gydag Arglawdd Dôl Afon Taf, bydd cerbydau'n gallu troi o fewn ardal y gyffordd. Byddai angen i gerbydau mawr gael mynediad i'r ffordd o gyffordd Heol Clare.




*GRhT yw'r ddogfen gyfreithiol sydd ei hangen i gefnogi ystod o fesurau, sy'n llywodraethu neu'n cyfyngu ar y defnydd o ffyrdd cyhoeddus.*

# Heol Clare - Stryd Pendyris

## Mesurau ar ôl gweithredu

### Cwestiynau Cyffredin

**Beth ydych chi'n ymgysylltu yn ei gylch yn union?** Mae'r Cyngor yn cynnig ymestyn y system unffordd a osodwyd yn ddiweddar ar Stryd Pendyris, o Mardy Street hyd at Arglawdd Dôl Afon Taf. Mae hyn yn cyd-fynd ag adborth o ymgynghoriad y cynllun, adborth gan breswylwyr ac o arolygon ac arsylwadau diweddar. Bydd hyn yn golygu y bydd hyd llawn Stryd Pendyris yn unffordd i gerbydau.

**Beth yw'r pryderon?** Mae cerbydau'n dal i ddefnyddio Mardy Street fel llwybr trwodd, ac mae rhywfaint o draffig wedi'i ddadleoli ar y ffordd yn dilyn y newidiadau diweddar i'r briffordd. Mae hyn wedi arwain at effaith negyddol ar y preswylwyr a defnyddwyr eraill y ffordd.

**Ble bydd y newidiadau yn cael eu gweithredu?** Er y bydd y system unffordd wedi'i chyfyngu i Stryd Pendyris, bydd angen arwyddion ymlaen llaw ar Heol Penarth. Bydd arwyddion eraill yn cael eu hystyried i gynorthwyo cerbydau mwy sydd angen cael mynediad i Stryd Pendyris.

**Beth am gerbydau mawr a danfoniadau?** Mae cerbydau mawr yn dal i allu cael mynediad i Stryd Pendyris o Heol Clare; fodd bynnag, byddai'n rhaid iddynt gael mynediad trwy Court Road neu tua'r de ar Heol Clare gan na chaniateir troi i'r dde wrth gyffordd Heol Clare / Stryd Pendyris.

**Beth am barcio?** Bydd y mannau parcio Talu ac Arddangos yn parhau yn eu lle, er efallai y bydd swm bach iawn o barcio yn cael ei golli ger cyffordd Mardy Street i wella gwelededd y lôn feicio wrthlif. Byddai modd cyrraedd mannau parcio Stryd Pendyris o Mardy Street neu Stryd Pendyris yn unig a byddai modd cyrraedd mannau parcio Arglawdd Dôl Afon Taf o'r ddau gyfeiriad.

**Beth fyddai'n digwydd pe bawn yn gyrru i fyny i gyffordd Arglawdd Dôl Afon Taf gyda Stryd Pendyris?** Ni fyddech yn gallu parhau ar Stryd Pendyris, fodd bynnag, mae troi yn bosibl ar ddiwedd Arglawdd Dôl Afon Taf, er fod hyn wedi'i gyfyngu i geir a cherbydau masnachol llai. Gellir ystyried gorfodaeth camerâu fel rhan o'r cynllun hwn neu yn y dyfodol.

**A fyddwn i'n gallu defnyddio fy mathodyn glas ar y ffordd?**Dim ond yn y mannau dynodedig neu lle mae cyfyngiadau parcio yn caniatáu hynny.

**Sut i roi adborth**Ar y dudalen ganlynol mae gwybodaeth am sut i ymateb.

**Beth am draffig yn teithio o amgylch yr ardal a'r rhwydwaith?** Mae mwy o wybodaeth am ein cynlluniau presennol ar wefan y Cyngor ac ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd. Ewch i: www.caerdydd.gov.uk neu Papur Gwyn Trafnidiaeth (caerdydd.gov.uk)

# Heol Clare - Stryd Pendyris

## Mesurau ar ôl gweithredu

### Sut i ymateb

**Ymatebwch i'r ymgysylltiad hwn gan ddefnyddio'r ffurflen arolwg.**

Neu copïwch a gludwch yr URL canlynol: https://online1.snapsurveys.com/s914ik

Bydd hyn yn eich galluogi i wneud sylwadau ffurfiol mewn ymateb i'r ymgysylltiad hwn.

Fel arall, e-bostiwch TimyRhaglenDrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at: Tîm y Rhaglen Drafnidiaeth, Ystafell 301 Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

**Bydd yr ymgysylltiad hwn ar agor tan 23/06/2024**

Caiff yr holl ymatebion eu hadolygu a'u defnyddio er mwyn helpu i ysgrifennu'r adroddiad ar yr ymgysylltiad, sef un o'r dulliau a ddefnyddir i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y cynllun.

Bydd ymatebion i gwestiynau am y cynnig ar gael yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ar-lein pan fydd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth, gan ddewis y ddolen 'ymgynghoriadau' a dewis teitl y cynllun. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgysylltiad, caiff y prosiect ei gynllunio'n fanwl a'i roi ar waith, yn amodol ar gymeradwyaeth ac arian.

**Dim ond adborth a chwestiynau sy'n ymwneud â'r prosiect hwn a gaiff eu hystyried neu y gweithredir arnynt. Os oes gennych unrhyw adborth ar wasanaethau eraill y Cyngor, ewch i www.caerdydd.gov.uk**

**Hefyd, ni fyddwn yn gallu ymateb i ymatebion unigol – ond bydd yr holl ymatebion yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar yr ymgysylltiad a fydd ar gael yn fuan wedi dyddiad cau'r ymgysylltiad. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu.**